

Ffurflen Hunanwerthuso Myfyriwr

Mae'r adran hon yn ailadrodd yn gryno'r meini prawf asesu cyffredin sydd ar y tudalennau blaenorol. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich marc. Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, ticiwch y blwch sy'n dangos orau lefel y cyrhaeddiad rydych chi'n teimlo i chi ei gyflawni mewn perthynas â phob un ohonynt.

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	CYFEIRIO		D	C	B	A
	METHU'N LLWYR	ANFODDHAOL	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc)	☐	☐	☐	✓	☐	☐
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad)	☐	☐	☐	✓	☐	☐
3. Cymwysiadau Pedagogaid a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol)	☐	☐	☐	✓	☐	☐
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol	☐	☐	☐	✓	☐	☐

RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO EICH BOD WEDI PERFFORMIO'N DDA YNDDYNT	RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO BOD ARNOCH ANGEN EU DATBLYGU
Teimlaf fy mod wedi defnyddio amryw o lenyddiaeth berthnasol, er mwyn ateb gofynion yr aseiniad a rhoi darlun ehangach o sut i datblygu a chynnal dysgu unigolyn.	Credaf fod y drafodaeth yn amhendant ar adegau ac yn crwydro o'r ymchwil nawr ac yn y man. Yn ogystal â hyn teimlaf fod angen cryfhau'r dulliau cofnodi data.

‘Cynorthwyo cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau’r camau dysgu nesaf.’

Rhagarweiniad

Amcan y traethawd hwn yw cynorthwyo cynnydd disgybl ac yna dadansoddi a chyfiawnhau’r camau dysgu nesaf. Cynhelir yr ymchwil yn fy ail leoliad PAP mewn ysgol ar gyrion tref yn Ne Orllewin Cymru. Yn yr ysgol mae yna 8 dosbarth o flynyddoedd unigol a phedwar dosbarth cymysg oedran. Gelwir yr ysgol yn ysgol A er bwrpas yr aseiniad. Yn ôl adroddiad ESTYN (2017) mae 9.8% o’r disgyblion yn ddisgyblion prydau ysgol am ddim. Mae tua 18% y disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref ac ychydig iawn sydd o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Nifer y disgyblion sydd ag anghenion addysgu ychwanegol ydy 33.6% sydd yn llawer uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (ESTYN, 2017). Mae gan yr ysgol ffrwd Cymraeg a Saesneg ac mae yna 301 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddwn yn cynnal yr ymchwil yn nosbarth blwyddyn 3 gyda 25 o ddisgyblion, 16 bachgen a 9 merch.

Y disgybl dan sylw yw ferch 8 mlwydd oed ym mlwyddyn 3 sydd yn derbyn ei addysg trwy’r Gymraeg. Mae’r dysgwr yn un mwy abl a thalentog (MaTh) a dangosai lefel disgwylidig neu’n uwch ym mhob maes dysgu'r cwricwlwm cenedlaethol. Dangosai’r dysgwr gallu cymedrol uwch yn darllen a Mathemateg, gelwir y dysgwr ym mhylentyn 1 er bwrpas yr aseiniad. Nid yw’r dysgwyr yn derbyn prydiau ysgol am ddim ac mae’n byw yn nheulu arferol o’r hyn a ddatgelir yn ein cyfweiliadau, daw’r disgybl o gartref Saesneg. Yn fy marn i mae hi’n unigolyn hyderus yn academiaidd sydd yn mwynhau bywyd ysgol ar y cyfan. Dewisais y dysgwr hwn yn ôl argymhellion fy nhiwtor, dywedodd fy nhiwtor y byddai’r dysgwr yn ymatebol iawn i unrhyw her addysgol ac felly’n unigolyn perthnasol i ddewis ar gyfer aseiniad o’r fath hwn. Gwelais hyn yn fuan ar ôl ei chwrdd wrth iddi ymdrochi i bob tasg a rhoddais iddi ac ateb gyda manylder yn y cyfweiliad (gweler atodiad 1).

Mae Plentyn 1 yn mwynhau clybiau allgyrsiol fel clwb garddio a bod yn rhan o dîm cwis yr ysgol. Gall plentyn 1 drysu a gofidio weithiau yn enwedig pryd mae rhywun yn anghytuno gyda’i barn yn ystod trafodaeth grŵp. O’r arsylwadau yn

ystod amser chwarae a'r cyfweiliadau, wnes i ddod i'r canfyddiad nid oedd ganddi nifer o ffrindiau agos ac yn cael anawsterau gyda datblygiad cymdeithasol mewn rhai sefyllfaoedd. Ond ceir diffyg ymchwil i awgrymu cyswllt rhwng cyrhaeddiad uchel ac oedi ym maes sgiliau cymdeithasol plant oed cynradd (Bee a Boyd, 2012). At hyn mae'n rhaid nodi taw amser cyfyngedig y cafwyd i ddod i adnabod y dysgwr felly annheg byddai gwneud arsylwadau cyffredinol amdano'r dysgwr. Fodd bynnag, o'r data byddwn yn dadlau bod rhiw fath o ddadl gan Bee a Boyd (2012) ond byddai angen gwneud ymchwil pellach er mwyn profi'r ddadl hon.

Casglu data

Defnyddiwyd y dull Mosaig yn ystod yr ymchwil hon i sicrhau bod darlun cyflawn yn cael ei adeiladu gan amrywiaeth o ffynonellau gwahanol. Gwnaethpwyd hon trwy alluogi plant ifanc ac oedolion i fod yn rhan o 'wneud ystyr' gyda'i gilydd. Mae hon yn ddull y gellir ymuno â ffotograffau, teithiau dysgu a mapiau plant eu hunain i siarad ac arsylwi er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o fywydau plant (Clark a Moss, 2011). Yn yr achos hwn wnes i ddarganfod y ffordd yr oedd Plentyn 1 yn gallu archwilio a mynegi ei chanfyddiad o sut mae hi'n dysgu a chyfathrebu ei syniadau mewn ffordd ystyrlon. Er mwyn deall datblygiad dynol, mae angen astudio'r newidiadau y mae plant yn eu cael trwy gydol eu plentyndod (Doherty a Hughes, 2014).

Casglwyd data mewn sawl gwahanol ddull i ategu gofynion yr aseiniad hwn. Gofynnir i'r dynesiad mosaig cael amrywiaeth o ffynonellau i gasglu data er mwyn i athrawon arsylwi, gwrando ar anogaeth neu ddangos sensitifrwydd wrth iddynt ddod yn gyfarwydd â dysgu a meddwl plant (Walsh et al., 2010). Yn wir un o'r prif ddulliau o'r dull mosaig yw gwrando ar yr hyn mae gan y dysgwyr i ddweud am ei dysgu, mae yna bwyslais ar 'llais y plentyn' (Coe et al., 2011). Felly defnyddiais gyfweiliadau lled strwythuredig a chofnodion ar y cyd yn ystod yr ymchwil er mwyn cofnodi ymdeimladau'r dysgwr am ei amser yn yr ysgol.

Yn amlwg mae gan gyfweiliadau strwythuredig ei anfanteision yn unol gyda'r dull mosaig oherwydd cynhyrchwyd data ansoddol ganddynt. Mae hyn yn gwneud hi'n anodd iawn cyffredinol i'r darganfyddiadau oherwydd dim ond am gyfranogwr penodol mae'r dull yn gynnwys. Ond ar y llaw arall nodwyd gan

Hobart et al. (2009) bod cyfweiliadau strwythuredig gan ddefnyddio cwestiynau mwy pendant yn achosi cyfyngiadau i'r data ansoddol a gasglwyd. Yn yr achos hwn cyfunwyd yr atebion yn y cyfweiliad lled strwythuredig a'r cofnodion ar y cyd i greu darlun ehangach o agweddau'r cyfranogwr tuag at waith a bywyd ysgol.

Yn ogystal â chyfweiliad gyda'r cyfranogwr cynhaliais gyfweiliad gyda'r athrawes dosbarth ar wahân yn ystod yr ymchwil. Penderfynais wneud hyn oherwydd nid oeddwn eisiau presenoldeb yr athrawes dosbarth dylanwadu ar atebion y cyfranogwr. Mae gan gyfranogwyr o bob oedran tueddiad i geisio plesio'r ymchwilydd (Roberts-Holmes, 2005). Os mae hyn yn wir, credaf byddai'r tueddiad hyn wedi bod yn waith byth os roedd ei athrawes dosbarth yn bresennol.

Y prif ddull o gasglu data yn ystod yr ymchwil oedd trwy arsylwadau distrwythur sef fy nghofnodion ar y cyd. Cadarnhawyd y dull yma i'r ymchwilydd cryfhau ei dealltwriaeth ymhellach o sut mae'r dysgwyr yn dysgu ac addysgu'n orau (Clark a Moss, 2011). Gelwir hyn yn arsylwi distrwythur oherwydd ei fod yn cofnodi ymddygiad naturiol heb ddewis ymlaen llaw ar ba fath o ymddygiad penodol i gofnodi. Hynny yw arsylwais a chofnodais bopeth a deimlais oedd yn werth cofnodi yn ystod gwersi gwahanol ac yn ystod yr amser yn gyffredinol. Cynhyrchwyd data ansoddol o'r fath hyn o arsylwi oherwydd mae'n defnyddio arsylwadau yn seiliedig ar ddisgrifiadau trwy eiriau a chofnodion i ddisgrifio'r ymddygiad.

Mantais o ddefnyddio'r fath hyn o arsylwi yw'r siawns i gofnodi'r hyn sydd yn digwydd wrth i'r plentyn dysgu (Roberts-Holmes, 2005). Mae'r dull hefyd yn caniatáu i'r arsylwr nodi unrhyw rhyngweithio rhwng disgyblion, faint o amser gwariwyd ar weithgareddau penodol a sut mae'r disgybl yn rhyngweithio gyda'i amgylchedd dysgu (Hobart et al., 2009). Un ystyriaeth mae angen i'r arsylwr gwneud wrth ddefnyddio arsylwi yn ystod y dull Mosaig yw'r penderfyniad ynglŷn â'r lefel o ryngweithiad gyda'r plentyn (Bolzan a Gale, 2011). Mae'n bosib osgoi'r sefyllfa hon trwy drin pob arsylwad fel pe bai'n wers arferol a dim ond ymyrryd pan mae'n angenrheidiol.

Defnyddiwyd taith dysgu fel y ffordd olaf o gasglu data yn ystod yr ymchwil. Yn fyr, tynnodd y disgybl lluniau o'r pethau wnaeth helpu hi dysgu yn ogystal â thaith o amgylch yr ysgol er mwyn darganfod ei hoff lefydd i gymdeithasu, chwarae ac i esbonio'r adeilad i mi. Manteisiais ar y cyfle hwn yn ystod fy wythnos gyntaf ac aethom ni ar daith o amgylch yr adeilad fel rhan o fy nghroeso i'r ysgol. Cafodd plentyn 1 hwyl yn tynnu lluniau a chael y cyfrifoldeb o fy nhywys i o amgylch. Nodwyd Christensen (2004) bod defnyddio eitemau fel i pad a gwrthrychau eraill yn ystod y broses adeiladu perthynas â phlant yn hwyluso'r proses.

Yn sicr ymhelaethodd Plentyn 1 ei brwdfrydedd tuag at glwb garddio a'i hoff ardaloedd o amgylch yr ysgol, felly roedd yr i pad yn werthfawr iawn er mwyn casglu data yn y ffordd hon. Noda Clark (2001) bod rhaid cofio i gyfuno'r lluniau a dynnwyd gyda thrafodaeth am y rheswm dros dynnu'r llun. Nid oes llawer o werth i'r llun os ni chafwyd esboniad o'r rhesymau am bwysigrwydd i ddysgu'r plentyn. Heb gwestiwn mae'r cyfuniad o drafodaeth yn gyfunol a defnyddio'r gwrthrych yn arf pwerus a hollbwysig wrth ddefnyddio'r dull Mosaig (Christensen, 2004).

Yn naturiol wrth gynnal unrhyw fath o ymchwil mae angen ystyried materion moesegol. Rhaid i ymchwilwyr ddeall a mynd i'r afael â materion moesegol sy'n codi mewn ymchwil, gan gynnwys yr angen i amddiffyn buddiannau a lles parhaus cyfranogwyr (Naughton et al., 2001). Noda Hobart et al. (2009) bod yna dyletswydd ar ymchwilwyr i amddiffyn cyfrinachedd y cyfranogwr yn ystod ymchwil. O ganlyniad cadwyd pob darn o waith yn ystod yr ymchwil yn anhysbys a ni ddatgelir enw'r cyfranogwr ar unrhyw adeg yn ystod yr aseiniad hwn. Cefais gydsyniad gwybodus (gweler atodiad 2) oddi wrth y cyfranogwr, yr athrawes dosbarth a'r pennaeth yr ysgol yn ôl canllawiau BERA (2011). Atgoffwyd y dysgwr y gall tynnu allan o unrhyw ffordd o gasglu data, cyfweiliad neu daith dysgu ar unrhyw amser yn ystod yr ymchwil.

Dadansoddi'r dysgwr

Pwrpas y rhan hyn o'r aseiniad yw dadansoddi gwahanol ardaloedd o addysg y dysgwr. Gwneir hyn gan ddefnyddio model ASG Nottingham (2013). Yr

ardaloedd yma bydd iaith, Mathemateg, Lles, Saesneg a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Yn ystod fy wythnos gyntaf yn yr ysgol cefais siawns i fynd ar daith dysgu gyda'r disgybl. Fel rhan o'r daith dysgu yma cynhaliwyd cyfweiliad distrwythur er mwyn dod i adnabod ein gilydd yn well. Defnyddiais hyn ochr yn ochr i daith o amgylch yr ysgol ble defnyddiodd y disgybl i pad i gymryd cipluniau o'r hyn oedd o gymorth iddi wrth ddysgu. Wrth edrych ar y rhestr (gweler atodiad 1) mae'n glir bod cyfarwyddiadau o beth i wneud yn bwysig iawn i'r disgybl. Ymhelaethodd bod angen iddi gael rhyw fath o gyfarwyddiadau er mwyn wirio bod hi'n cymryd y camau cywir nesaf yn ei dysgu. Hynny yw roedd eglurhad neu atgyfnerthiad gan yr athro dosbarth bod hi ar y trywydd iawn yn medru ei chysuro, roedd y cyfiawnhad hwn gan oedolyn yn gwneud hi'n teimlo'n fodlon ac yn hyderus i fwrw ymlaen gyda'r dasg dan sylw. Gwelir yr adran hon o ddysgu o dan sgiliau deallusol a chyfathrebu model ASG Nottingham (2013).

Ar ôl y cyfweiliad distrwythur arweiniodd Plentyn 1 taith dysgu o amgylch yr ysgol. Yn ystod ein taith o amgylch yr ysgol cymerodd cipluniau o sawl gwahanol ardal, ni rwystrais y disgybl i nifer penodol o luniau oherwydd roeddwn eisiau gweld yr agwedd ehangach o beth oedd yn bwysig i'r disgybl. Yn hytrach wnes i ofyn iddi ddewis 4 o'r rhai pwysicaf ar ddiwedd y daith. Mynna Tisdall a Kay (2009) bod y cyfathrebiad a'r rhyngweithio heb drafodaeth neu gyfarwyddo'r un mor bwysig â sgwrs pan ddaw i gasglu data. Gweler yn atodiad 3 bod y pedwar llun yn cydymffurfio gyda rhai o'r pethau a datgelir yn y cyfweiliad.

Un agwedd wahanol oedd yn ei helpu i ddysgu oedd llun o lotment yr ysgol ble tyfwyd llysiau, ffrwythau a phlanhigion y clwb garddio. Yn ein trafodaeth yn ystod y daith dysgu dywedodd y disgybl bod y lotment yn helpu iddi ddysgu am y byd naturiol a sut i dyfu pethau. Canfu Dillon et al. (2005) bod sawl mantais i ddysgu yn ystod gweithgareddau tu allan sydd yn cryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr. Yn ychwanegol i hyn, rhywbeth arall wnaeth helpu'r dysgwr i ddysgu oedd y bwrdd anelu at arbenigrwydd (gweler atodiad 4). Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Child (2004) lle nodwyd bod modd cynyddu'r siawns o ymddygiad penodol trwy ei atgyfnerthu yn bositif. Yn yr achos hwn yr

ymddygiad yw hybu dysgwyr brwdfrydig trwy eu gwobrwyo, gwelir bod y system wobrwyo hon yn bwysig iawn i ddysgu Plentyn 1 ac efallai'n profi bod gwobrwyo yn effeithiol iawn at gefnogi'r dysgwr yn ei champau dysgu nesaf.

Iaith Cymraeg

Yn gyntaf mae'r dysgwr wedi dangos dealltwriaeth dda o'r gweithgaredd iaith ar ysgrifennu cyfarwyddiadau yn ystod fy addysgu (gweler atodiad 5). Mae pob cam ond un yn cynnwys gorchymyn ac yn dechrau gyda gair sy'n esbonio trefn amser. Nodwyd gan Nottingham (2013) bod angen i ddysgwyr modelu samplau o waith er mwyn cael deallusrwydd cyfiawn o beth disgwylir ohonynt. Llwyddodd y dysgwr i ddeall gofynion sylfaenol o'r dysgu, defnyddiwyd safon ysgrifenedig da gan y dysgwr wrth ystyried mai cartref Saesneg mae'r dysgwr yn dod ohono.

Ond wrth edrych ar y meini prawf gwelir bod y dysgwr heb gynnwys rhifau, llythrennau, pwyntiau bwled neu liw i ddangos y drefn gywir. Yn fy marn i gamgymeriad esgeulus yw hwn ac efallai bod angen atgoffa'r dysgwr i ddarllen y meini prawf eto yn y dyfodol. Gwelir strwythur clir a threfnus o ran ffurfiant y llythrennau a brawddegau sydd yn bosib i'w ddarllen heb lawer o ymdrech. Roedd y gweithgaredd ysgrifenedig hwn yn dasg ffocws, gan fy mod yn defnyddio system cylchdroi yn y dosbarth. Felly roeddwn gyda'r dysgwr a'r grŵp ffocws trwy gydol y sesiwn. Ni roddais ormod o gyfarwyddid i'r grŵp gyda'r dasg ond am siarad y dysgwyr trwy ddilyniant y lluniau. Efallai roedd y dysgwr yn meddwl bod dim angen ychwanegu rhifau, llythrennau, pwyntiau bwled neu liw i ddangos y drefn gywir oherwydd bod hi eisoes wedi defnyddio'r gair cyntaf i esbonio'r drefn amser, er enghraifft yn gyntaf, yn ail.

Ar ôl ymgynghori â'r athrawes dosbarth am y gwaith a gyflwynwyd, credaf fod y dysgwr yn gweithio ar lefel 3 uchel gydag elfennau o lefel 4 yn ôl argymhellion y fframwaith Cymraeg ar gyfer ysgrifennu. Penderfynais ar y lefel hyn gan fod y dysgwr wedi deall sut i ddefnyddio gorchymyn o fewn ysgrifennu cyfarwyddiadau, ond bod angen i'r dysgwr gwirio'r sillafu wrth newid y berfau i orchmynion. At hyn teimlaf y dylai'r dysgwr wedi ymdrechu'n well i gwblhau'r gweithgaredd i safon uwch. Yn wir noda Eyre (2003) bod angen pennu

disgwyliadau uchel o bob dysgwr yn ein dosbarth a bod angen ymestyn dysgwyr ar bob achlysur

Mathemateg

Yn ail mae'r dysgwr wedi dangos dealltwriaeth dda ym Mathemateg. Un gweithgaredd wnaethon yn ystod fy amser yn addysgu oedd rhannu gyda gweddillion (gweler atodiad 6). Unwaith eto roedd y dasg hon yn weithgaredd grŵp ffocws ac felly roedd yn siawns i ymestyn y dysgwr a'i grŵp trwy wneud rhannu gyda gweddillion. Cyflwynais y dull o ddarganfod gweddillion iddynt trwy ddefnyddio cwpanau bach a defnyddio bwrdd gwyn fel 'bwrdd Mathemateg'. Gwelais y dull yn cael ei weithredu blwyddyn ddiwethaf, roedd yn ffordd ymarferol effeithiol o ddarganfod gweddillion wrth rannu ac felly penderfynais ei ddefnyddio. Wrth edrych ar y daflen waith Peli Ping-Pong (gweler atodiad 9) cafodd y dysgwr un yn anghywir. Wrth ddadansoddi'r gwaith hyn mae'r disgybl yn gweithio ar lefel 3 gyda rhai elfennau o lefel 4 oherwydd ei gallu i alw i gof ffeithiau lluos i hyd at 10 x 10 yn ystod rhannu gyda gweddillion.

Er bod mwyafrif o'r atebion y dysgwr yn gywir, rhoddais rybudd i'r bwrdd cyfan yn ystod y dasg oherwydd gwelais ddysgwyr yn copïo atebion ei gilydd. Esboniais i'r grŵp bod trafod y gwaith a helpu cyfoedion yn dderbyniol, ond ni dderbyniais unrhyw copïo. Canfu Lev Vygotsky theori adeiladaeth gymdeithasol, esboniodd addysgu fel proses weithredol sydd yn deillio o ryngweithiadau cymdeithasol ag athrawon a chyfoedion (Grigg, 2010). O ganlyniad i'r theori yma cytunaf fod dysgwyr a Phlentyn 1 yn medru helpu ac esbonio gwaith i'w gilydd, wrth annog trafodaeth amdano'r gwaith yn y wers mae'n bosib ehangu dealltwriaeth gwahanol ddysgwyr. Gwelir yr elfen yma o dan sgiliau cymdeithasol yn fodel ASG Nottingham (2013). Cefnogwyd y meddylfryd hwn gan Waters (2017) gan nodi bod dysgwyr yn weithredol a ddim yn dderbynnydd goddefol o fewn yr ystafell dosbarth.

Iaith Saesneg

Mae'r disgybl wedi arddangos gallu da yn ystod y gwersi Saesneg rydw i wedi addysgu. Dangosodd y dysgwr dealltwriaeth dda o sut i ysgrifennu stori antur gan ddefnyddio cymeriadau, ansoddeiriau a chymariaethau. Gwelir strwythur

clir a threfnus o ran ffurfiant y llythrennau unwaith eto a chreodd brawddegau sydd yn bosib i'w ddarllen heb lawer o ymdrech. Mae'r sillafu o safon dda oherwydd mae'r dysgwr yn ymwybodol o sut i ddefnyddio geiriadur yn gywir.

Cwblhawyd y darn ysgrifenedig ar ôl tair gwers o weithgareddau cylchdroi ar ansoddeiriau, cymariaethau a chreu cymeriadau ar gyfer stori. Felly roedd gan y dysgwr digon o syniadau a chyfarwyddid i ymdopi gyda'r gweithgaredd yn dda. Fel y nodais, mae'r dysgwr yn hoff o gael cyfarwyddiadau clir wrth ddysgu. Yn yr achos hwn roedd ganddi lawer o enghreifftiau a sylfaen i'w ddilyn, gall hyn fod y rheswm llwyddodd y dysgwr i gwblhau'r dasg i safon uchel. Cefnogwyd y ddadl hon gan Grigg (2010) sydd yn nodi pwysigrwydd cyfarwyddiadau clir, syml ac addas i'r gynulleidfa a'u lefel o ddealltwriaeth.

Lles

Fel y nodwyd ar ddechrau'r aseiniad dangosodd y disgybl bod gweithio'n galed a chael ei wobrwyo yn bwysig iddi trwy'r arddangosfa gwobrwyo. Adlewyrchwyd hwn yn yr ymdrech dda y dangosai i gydymffurfio gyda gwerthoedd yr ysgol ar bob achlysur. Dangoswyd ymddygiad da o fewn y dosbarth yn gyson, ond mae sefydlogrwydd emosiynol y dysgwr yn peri pryder i'r athrawes dosbarth a fy hun ar adegau. Er bod gan y dysgwr natur bleserus, nid yw'n cymdeithasu llawer gyda dysgwyr eraill. Yn wir, mae'r dysgwr yn eithaf tawel yn ystod gwersi KIVA ond yn medru dangos ei dealltwriaeth wrth drafod ei theimladau fel rhan o drafodaeth dosbarth (gweler atodiad 7). Oherwydd bod y dysgwr mor gydwbybodol mae hi'n gweld hi'n anodd cymdeithasu gyda phlant ac ymlacio. Ardal sydd angen datblygu yw ceisio integreiddio ei hun gyda'r dosbarth cyfan er mwyn ymrwymo i sefyllfaoedd cymdeithasol yn well, yn ei thro gall wneud mwy o ffrindiau a chryfhau ei hunanhyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Dangosodd Plentyn 1 diddordeb enfawr yn yr ardal yma o'r cwricwlwm, adlewyrchwyd dawn naturiol y dysgwr gyda chyfarpar digidol wrth iddi greu gwaith o safon uchel. Un enghraifft o'r gallu hyn yw'r gwaith gyda'r rhaglen 'Excel' i greu graff ar boblogaeth trefi a dinasoedd yng Nghymru (gweler atodiad 8). Roedd hi'n falch iawn i gael y gwaith wedi ei gosod ar un o arddangosfeydd

y dosbarth. Ar ben hyn dangosodd gallu i gynhyrchu darnau o waith gyda chywirdeb iaith a sylw manwl i ofynion y meini prawf llwyddiant wrth ddefnyddio'r i pad. Sylweddolais fod safon ei Llythrennedd a sylw i fan cywiriadau sillafu yn fwy amlwg wrth iddi weithio ar i pad. Er hyn, mae'r amser rydw i wedi bod yn gweithio gyda'r dysgwr wedi bod yn gyfyngedig ac felly ni allwn gyffredinolli bod gwaith y dysgwr o safon well pryd cyflwynwyd yn ddigidol.

Camau nesaf

Ar ôl marcio, dadansoddi a cheisio esbonio elfennau gwahanol waith y dysgwr, penderfynais ar ganolbwyntio ar dair ardal yn bennaf sydd yn cwmpasu agweddau ar draws y cwricwlwm. Noda Llywodraeth Cymru (2013: 1) 'Llythrennedd a rhifedd yw dwy o flaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru'. Felly, mae'n gwneud synnwyr i ddewis llythrennedd a rhifedd fel ardaloedd i ddatblygu a chynorthwyo cynnydd y dysgwr yn y meysydd hyn. Yn ychwanegol i'r ddau hyn, dewisais Les fel trydydd faes i ddatblygu. Dewisais yr ardal oherwydd mae yna bwyslais cynyddol ar les yn ein system addysg. Yn wir, fel addysgwyr ein blaenoriaeth gyntaf cyn unrhyw addysgu yw lles yr unigolyn (Grigg, 2010).

Mathemateg

Gan fod y dysgwr yn alluog iawn ym Mathemateg edrychais ar sawl opsiwn er mwyn cryfhau a chyfrannu at lun cydlynol o gyrhaeddiad presennol y plentyn. Yr ateb amlwg oedd herio'r dysgwr trwy gyflwyno enghreifftiau o waith blwyddyn 4 er mwyn ymestyn y dysgwr. Ond er bod hyn yn un ffordd o ddatblygu'r camau dysgu nesaf y dysgwr, penderfynais ar strategaeth o gynyddu meddylfryd twf y dysgwr ochr yn ochr gyda'r her. Mynna Dweck (2007) bod deallusrwydd yn rhywbeth y gellir datblygu a dylanwadu, yn byr ddadlau bob tro mae dysgwyr yn ymestyn ei hun, yn gweithio'n galed, ac yn dysgu rhywbeth newydd, mae'r ymennydd yn ffurfio cysylltiadau newydd a dros amser maent yn dod yn fwy deallus o'r pwnc (Dweck, 2007).

Penderfynais ymhlygu'r strategaeth hon trwy'r iaith a ddefnyddiais wrth roi adborth i'r dysgwr. Hynny yw, yn lle canmol y dysgwr gydag adborth a geirfa fel 'da iawn' am gwblhau darn o waith Mathemateg, defnyddiais eirfa fel 'mae

angen i ni edrych am waith mwy heriol'. Darganfuwyd ymchwil gan Mueller a Dweck (1998) bod canmoliaeth am gudd-wybodaeth yn fwy negyddol i gymhelliant myfyrwyr na chanmoliaeth am ymdrech. Dangosai'r canlyniadau bod canmol cyson tuag at unigolion gyda chudd-wybodaeth uchel yn niweidiol oherwydd gall ymatebion digwydd fel y ganlyn. Nodai William (2011) bod un o bedwar peth yn gallu digwydd wrth roi adborth: gall yr unigolyn dewis i ddilyn trywydd mwy heriol, fel y gobeithir; gall yr unigolyn ymdrechu'n llai; os mae'r dasg yn rhy hawdd, mae'r dysgwr yn rhoi'r gorau iddi yn gyfan gwbl; neu wrthod yr adborth a'i ystyried yn amherthnasol.

Sylweddolais fod dewis geirfa lai clodforus wrth gynnig adborth yn cael ymateb positif iawn, gwenodd y dysgwr ar sawl achlysur wrth i mi defnyddio geirfa sydd yn hybu meddylfryd twf. Cefnogwyd y dull yma gan Soderstrom a Bjork (2013: 54), 'empirical evidence suggests that delaying, reducing, and summarizing feedback can be better for long-term learning than providing immediate trial-by-trial feedback'. Cefnogwyd y datganiad hwn gan Didau a Rose (2016) gan nodi y dylem fod yn ymwybodol o'r hyn y mae gwyddonwyr wedi darganfod am ddysgu, meddwl, cymhelliant, ymddygiad ac asesu dros y degawdau diwethaf. Hynny yw bod yna tystiolaeth gadarn i gadarnhau bod technegau ymyrraeth fel meddylfryd twf a'r fath o adborth a rhoddwyd i ddysgwyr yn medru cynyddu dysgu a chyrhaeddiad.

Yn naturiol mae angen trafod cyfyngiadau posib sydd yn codi wrth ddefnyddio'r ymyrraeth dan sylw. Yn gyntaf roedd angen cael cysondeb yn yr iaith a defnyddiais wrth roi adborth i'r dysgwr, roedd hyn yn anodd gan fod cynorthwyydd dysgu yn yr ystafell yn ystod hanner yr wythnos yn ogystal â'r athrawes dosbarth. Felly roedd yn anodd sicrhau bod pob darn o adborth a derbyniodd y dysgwr wedi cael ei strwythuro yn ôl yr iaith meddylfryd twf. At hyn, anodd yw cyfiawnhau unrhyw newid yn agwedd y dysgwr at ei dysgu neu gynorthwyo ei chynnydd o ran dysgu yn yr amser a rhoddwyd i gynnal yr ymchwil. Cyfyngedig iawn oedd yr amser ar gyfer yr ymchwil ac o ganlyniad mae'n anodd profi bod yr ymyrraeth wedi cael effaith. Efallai byddaf yn defnyddio holiadur i nodi'r cynnydd yn feddylfryd twf y dysgwr tro nesaf. Noda Coles a McGrath (2010) bod hi'n holl bwysig cofnodi pob math o ddata yn ystod

ymchwil er mwyn nodi unrhyw ddarganfyddiadau a phrofi'r ymyrraeth wnaeth achosi cynnydd yn dysgu'r cyfranogwr.

iaith

Yn ôl model ASG Nottingham (2013) mae sgiliau deallusol unigolyn a'i arddull dysgu yn gallu bod yn ddylanwadol iawn ar effeithlonrwydd dysgu. Cefnogwyd hyn gan Garnett (2005), nodai bod diddordeb cynyddol mewn dysgu'r ymennydd a chysyniadau megis arddulliau dysgu. Un model poblogaidd o arddulliau dysgu yw'r dull gweledol, clywedol a chinesthetig (Ginnis, 2002). Felly wrth geisio cynorthwyo cynnydd y dysgwr o ran dysgu penderfynais ofyn i'r dysgwr beth oedd ei arddull dysgu gorau wrth wneud gwaith iaith. Fel y nodwyd yn barod esboniodd y dysgwr bod hi'n hoff iawn o gael cyfarwyddiadau syml a chlir gydag esiampl i fodelu er mwyn ei chynorthwyo yn ei dysgu. Felly yn ôl model Ginnis (2002) rhoddais fy nysgwr o dan y categori arddull dysgu gweledol.

Er mwyn gweld cynnydd yn dysgu'r plentyn, byddaf yn defnyddio'r strategaethau o fodeli ac ysgrifennu cyfarwyddiadau clir o fewn gwersi iaith er mwyn cynorthwyo'r dysgwr yn ei arddull dysgu gorau. Nodwyd gan Coe et al. (2014) bod ansawdd y cyfarwyddiadau a modelu yn gallu hybu dysgu ac addysgu effeithiol o fewn yr ystafell dosbarth. Byddaf yn targedu'r dosbarth cyfan yn y strategaeth hon er mwyn sicrhau ni fydd y dysgwr yn ymwybodol bod hi'n cael ei thargeddi fel unigolyn ac i beidio ymyrryd ar ei hunanhyder. Mae'n bwysig ystyried teimladau'r cyfranogwr wrth wneud unrhyw fath o ymchwil oherwydd ni ddylid torri canllawiau moeseg (Naughton et al., 2001).

Fel y dywedais byddaf yn mynd ati i ysgrifennu cyfarwyddiadau clir a byr ar y bwrdd gwyn ym mhob gwर्स iaith i alluogi cynnydd yn ddealltwriaeth y plentyn o'r disgwyliadau. Bydd y rhain yn cael ei ddefnyddio'n ochr yn ochr gyda modelu'r gwaith. Er enghraifft mewn gwर्स ar gynllunio ac ysgrifennu llythyr personol byddaf yn rhoi esiamplau o'r iaith a defnyddir a nodweddion pwysig eraill o'r darn ysgrifenedig. Yn ystod y gweithgareddau yma, byddaf yn cynorthwyo'r dysgwr dan ffocws gan eistedd ar ei bwrdd o bryd i'w gilydd a sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth glir o'r meini prawf llwyddiant.

Yn fyr, cyfyngiadau a goblygiadau sydd yn codi o ddefnyddio'r strategaeth hyn yw ni fyddwn yn ystyried arddulliau dysgu'r holl ddosbarth. Hynny yw, efallai roedd yr arddull gweledol a defnyddiais er mwyn cynorthwyo Plentyn 1 wedi bod yn berthnasol i sawl dysgwr arall yn y dosbarth. Ond, nid oeddwn wedi darparu arddull dysgu dymunol ar gyfer pob unigolyn. Yn ôl un arolwg, mae 93 y cant o athrawon yn y DU wedi nodi bod plant yn dysgu'n well os dysgwyd yn eu harddull dysgu ddelfrydol (Lee, 2013). Felly trwy addysgu'r dosbarth mewn un arddull addysgu arbennig, roeddwn yn gwneud anghyfiawnder i rai o'r dysgwyr gan nad oeddwn wedi ystyried y dull addysgu gorau iddyn nhw.

Lles

Wrth ystyried datblygiad cymdeithasol a lles y plentyn, mae'n bwysig arsylwi ac astudio perthynas yr unigolyn â'i chyfoedion. Fel y dywedais, mae'r dysgwr yn gweld hi'n anodd cymdeithasu gyda rhan helaeth y dosbarth a disgyblion eraill yr ysgol. Dangosai astudiaethau bod ffrind gorau yn nodwedd gyffredinol o ddatblygiad cymdeithasol plant oedran ysgol gynradd (Kostelnik et al., 2012). Gofynnais i'r dysgwr os oedd ganddi ffrind gorau a ni chefais ateb pendant, dim ond y dysgwr yn meddwl ac yn methu rhoi enw. Profir hyn bod Plentyn 1 yn cael trafferth gyda'i sgiliau cymdeithasol efallai, ond ar yr un pryd mae'n bosib bod y dysgwr yn ddigon hapus i beidio cael ffrind gorau. Yn ôl fy arsylwadau a phwyso a mesur pellach ar y testun, penderfynais nad oedd gan y dysgwr nodweddion cymdeithasol plentyn ei oedran. Amlygodd fy nghanfyddiadau ddiffyg cysylltiadau cadarnhaol y dysgwr â'i chyfoedion. Darganfuwyd bod plant yn y sefyllfa hon yn aml yn gwneud yn eithaf da yn yr ysgol, ond maent yn fwy tebygol o ddioddef gydag iselder o ganlyniad i'w sefyllfa gymdeithasol (Cillessen et al., 1992; Wentzel a Asher, 1995).

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, penderfynais gael trafodaeth gyda ALENCo'r ysgol er mwyn cael cyngor a syniadau ar sut i gefnogi'r dysgwr. Ar ôl trafodaeth drylwyr amdano sefyllfa'r dysgwr penderfynais ar ddefnyddio trafodaeth grŵp yn ystod sesiynau KIVA. Nodai Donaldson (2015) yn ei argymhellion, bod hi'n bwysig i ddisgyblion adeiladu eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi. Canolbwyntiodd y sesiwn KIVA ar hybu

perthnasau positif a gwneud ffrindiau mewn sefyllfaoedd newydd. Er nad oedd digon o dystiolaeth i awgrymu cyswllt rhwng dysgu cydweithredol a datblygiad cymdeithasol, penderfynais y byddai hyn yn ymyrraeth addas gan fod y dysgwr â rhyngweithiad cyfyngedig â mwyafrif ei chyfoedion.

Wrth gwrs goblygiadau a chyfyngiadau'r mwyaf y strategaeth yma yw nid wyf yn gymwys i ymyrryd yn rhy ddwfn i anghenion cymdeithasol unigolion. Roedd y gwersi KIVA yn eithaf cyffredinol ar y cyfan a dysgwyd ar raddfa dosbarth cyfan yn hytrach â thargedu'r unigolyn. Fy swydd yw nodi unrhyw faterion o bryder a'i drosglwyddo i unigolion fel ALENCo neu asiantaethau sydd yn gweithio gyda'r Sir i gynorthwyo disgyblion. Ar ddiwedd y dydd nid wyf yn arbenigwr yn y maes ac felly'n gyfyngedig i'r lefel o ymyrraeth y gallaf ei roi i'r dysgwr, ond sicrhawyd fy mod yn gwneud popeth y gallwn i gefnogi'r dysgwr. Yn yr achos hwn penderfynais gadw mewn cysylltiad agos gyda ALENCo'r ysgol trwy ddiweddariadau ar ddiwedd pob wythnos.

Casgliadau

Ar ôl ymgymryd yn y broses o arsylwi un disgybl a cheisio rhoi camau yn ei le er mwyn cynnal dysgu'r unigolyn. Mae gennyf gwell dealltwriaeth o'r strategaethau mae modd defnyddio i gynorthwyo anghenion disgyblion ar ben eu hun. O ganlyniad i'r aseiniad hon mae gennyf gwell syniad o sut i roi ymyrraethau priodol yn ei le i wella cyrhaeddiad unigolyn. Gan ddefnyddio'r dull mosaig rwyf wedi manteisio ar y cyfle i weld pethau trwy safbwynt y dysgwr. Trwy'r cipluniau o beth wnaeth helpu'r wrth ddysgu a thrafod y dewisiadau hyn ymhellach i gael darlun ehangach o beth oedd yn fanteisiol i'r dysgwr ar ei thaith dysgu. Yn ychwanegol i'r dulliau hon roedd y cyfle i siarad gyda'r disgybl yn fanteisiol iawn oherwydd dangosodd i mi beth oedd angen gwneud, er mwyn cynorthwyo a chynyddu cymhelliad y disgybl yma yn y ffordd fwyaf effeithiol i helpu a'i chyrhaeddiad.

Heb gwestiwn, wnaeth yr aseiniad pwysleisio pwysigrwydd llythrennedd a rhifedd fel sylfaen i'r cwricwlwm a sut roedd fy nylanwad i fel addysgwr yn gallu cael goblygiadau mawr ar ddysg unigolion. Yn wir, sylweddolais wrth geisio symud gwaith Mathemateg y dysgwr ymlaen bod adborth yn llawer fwy na ddefnyddio geiriau positif i hybu'r dysgwr yn y gobaith ei fydd hi'n penderfynu

bwrw ymlaen gyda'r darn o waith nesaf. Gwelais fod angen dewis a dethol fy ngeiriau yn ofalus wrth roi adborth yn ôl strategaethau meddylfryd twf, rhywbeth byddai'n defnyddio eto gydag unigolion yn fy nosbarth yn y dyfodol. Yn ychwanegol i hyn rwyf wedi dysgu bod angen cydbwysedd rhwng y mathau o arddulliau dysgu y dylai fy nghyflwyniadau cael ar ddechrau gwers. Oherwydd bod tystiolaeth gynyddol yn dangos bod dysgwyr yn dysgu yn eu hoff arddull dysgu (Didau a Rose, 2016). Byddaf yn ceisio amrywio'r mathau o arddulliau a defnyddiwyd yn y cyflwyniad er mwyn ategu anghenion disgyblion yn fy nosbarth.

I gloi, mae'r aseiniad hon wedi dangos pwysigrwydd a defnyddioldeb cynnal math ymchwil gydag unigolion. Byddaf yn ceisio gwneud rhywbeth tebyg gyda phob disgybl yn fy nosbarth yn y dyfodol er mwyn cefnogi nhw yn eu camau dysgu nesaf. Galluogai hyn y modd i addasu'r ddysg yn ôl gofynion y dysgwyr a beth sydd yn gweithio'n orau iddynt. Roedd y dull mosaig yn ffordd o asesu ar gyfer dysgu gweithredol oedd yn medru dangos i fi fel addysgwr y pethau oedd angen teilwra neu newid er mwy cael y gorau allan o'r dysgwyr. Gwerthfawrogwn gall y broses cymryd amser hir wrth wneud dosbarth cyfan o ddysgwyr, ond byddai'r manteision yn rhagori'r anfanteision yn y tymor hir gyda'r gobaith i ddisgyblion dangos cyrhaeddiad.

Llyfryddiaeth

Bee, H.L. a Boyd, D.G. (2011) *The developing child*: Twelfth edition. (12ed arg). Boston: Allyn & Bacon/Pearson Education.

Bolzan, N.P. a Gale, F. (2011) *"Expect the unexpected"*. Child Indicators Research 4 (3) Boston: Allyn & Bacon/Pearson Education.

Christensen, P.H. (2004) *"Children's Participation in Ethnographic Research: Issues of power and representation"*. Children & Society, Boston University: Routledge

Child, D. (2004) *Psychology and the teacher*. (5ed arg) Cassell, London: Continuum.

Cillessen, A.H.N., IJzendoorn, H.W., Lieshout, C.F.M. and Hartup, W.W. (1992) *'Heterogeneity among peer-rejected boys: Subtypes and stabilities'*, New York, Routledge.

Clark, A. (2001). Say your piece. [Ar lein] Nurseryworld.co.uk. Ar gael: <http://www.nurseryworld.co.uk/nursery-world/news/1087815/piece> [Darllenwyd 22 Mai 2017].

Clark, A., a Moss, P. (2011). *Listening to Young Children The Mosaic approach* (2ail arg). London: National Children's Bureau.

Coe, R. Aloisi, C. Higgins, S. a Elliot Major, L. (2014) *What makes great teaching?* Review of the underpinning research. Durham University.

Coles, A. a McGrath, J. (2010) *Your Education Research Project Handbook*. Pearson Education Limited, England, UK.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniant asesu yng Nghymru Hawlfraint y Goron*, [Ar-lein]. Ar gael: <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-walescurriculum-forlife/why-we-are-changing/successful-futures/?skip=1&lang=cy> [Darllenwyd: 23 Mai 2018].

Doherty, J. a Hughes, M. (2013) *Child development: Theory and practice 0-11*. (2ail arg). Harlow, United Kingdom: Pearson Education.

Dweck, C.S. (2007). *The secret to raising smart kids*. Scientific American: Mind. New York.

Dillon, J; Morris, M; O'Donnell, L; Reid, A; Rikinson, M; a Scott, W. (2005) *Engaging and Learning with the Outdoors*. National Foundation for Educational Research 2005. Cambridge University.

Eyre, D. (2003) *Able Children in ordinary Schools* Published by Routledge, Abingdon, Oxon.

Garnett, S. (2005) *Using Brainpower in the Classroom*, London: Routledge

Ginnis, P. (2002) *Teacher's Toolkit*, Carmarthen: Crown House

Grigg, R. (2010). *Becoming an outstanding primary school teacher* Harlow: Pearson Education

Hobart, C., Frankel, J., a M, Walker (2009) *Child Observation and Assessment* Nelson Thornes Ltd Cheltenham, United Kingdom.

Kostelnik, M., Gregory, K. M., Soderman, A. K., a Whiren, A. P. (2012). *Guiding children's social development and learning*, (7ed arg). Belmont, CA: Wadsworth.

Llywodraeth Cymru (2017) *Fy Ysgol Leol* Ar gael: <http://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cy> [Darllenwyd 1 Mai 2018].

Lee, B. (2013) ' *Get inside their heads*'. Times Educational Supplement . Mawrth 1 2013. [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.questia.com/magazine/1P3-2954592131/get-inside-their-heads-feature> [Darllenwyd: 15 Mawrth 2018].

Llywodraeth Cymru (2013) *Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru* Ar gael: <http://www.assembly.wales/Research%20Documents/Literacy%20and%20Numeracy%20in%20Wales%20-%20Research%20paper-03062013-246762/13-039-Cymraeg.pdf> [Darllenwyd 4 Mai 2018].

Mueller C, M. a Dweck C, S (1998) *Praise for intelligence can undermine children's motivation and performance*. Department of Psychology, Columbia University, New York, USA.

Naughton, G. M., Rolfe S. A. a Siraj-Blatchford, I. (2001) *Doing early childhood research, International perspectives on theory and practice*. Open University Press, Berkshire, United Kingdom.

Soderstrom, N.C., Bjork. R. A. (2013) *Learning versus Performance*, Oxford Bibliographies Online: Psychology. New York: Oxford.

Tisdall, E. Kay M. (2009) *Researching with Children and Young People: Research Design, Methods and Analysis*. London: Sage

Vygotsky, L.S. (1978) *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Walsh, G, Sproule, L, McGuinness, C., Trew, K. A Ingram, G. (2010) *Developmentally appropriate practice and play-based pedagogy in early years education*. School of Psychology, Queen's University Belfast.

Waters, J. (2017) *Egwyddorion Addysgeg: Dysgu ac Addysgu Effeithiol yn y Cyddestun Cynradd* (M6X01438-C) Theoriâu Dysgu (Darllenwyd: 10 Mai 2018).

Wentzel, K.R. a Asher, S.R. (1995) *'The academic lives of neglected, rejected, popular, and controversial children'*, Child Development. New York: Oxford.

Atodiadau

Beth sy'n helpu di dlysgu?

- Cyfarwyddiadau ar y bwrdd guym
- Athrawes dosbarth
- Y Rhynghwyl
- Geiriadur am eiriau neuwydd
- Enghreifftiau o'r gwaith.
- I'w bod neu'r cyfrifiadeur.

Pethau pwysig i ti?

- Gofyn yr athrawes dosbarth
- Cwestiynau'n ddi'n ansicr amdano.
- Cyfarwyddiadau cler.
- Y 'Lotment' a'r club garddio.
- Cael pethau'n gywir (Gwaith ysgol).

Atodiad 2



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Ffurflen gydsynio ar gyfer tynnu lluniau a ffilmio

Datganiad

Rhaid i hyfforddeion dderbyn y cydsyniad ysgrifenedig isod gan y Pennaeth cyn tynnu lluniau o ddysgwyr, eu ffilmio neu wneud recordiad sain ohonynt.

Cytunaf i Benjamin Kirk sy'n gynrychiolydd i CAADOC, wneud y canlynol:

Tynnu lluniau

Gwneud fideo

Recordio ar dâp

(Ticiwch fel y bo'n briodol)

Enw'r Pennaeth:

Llofnodwyd:

Benjamin Kirk

Enw'r Ysgol:

I'w gwblhau gan yr hyfforddai:

Os rhoddir caniatâd i mi, rwyf yn cytuno i ymddwyn yn ôl y foeseg a ymgorfforir o fewn Cod Ymarfer CyngACC ac ni fyddaf yn dosbarthu unrhyw ddeunydd o'r fath i gynulleidfaoedd y tu hwnt i awdurdodau'r Brifysgol heb eu caniatâd.

Enw'r hyfforddai: Benjamin Kirk

Llofnodwyd: Benjamin Kirk

Rhif ffôn: 07940 355 223

Cyfeiriad e-bost: 1703318@student.uwtsd.ac.uk

Rhaglen (e.e. BA Addysg/TAR Cynradd/TAR Uwchradd): TAR Cynradd

Dyddiad: 24.4.18

Diolch am eich cydweithrediad.

Medi 2012

RE: Primary PGCE student assignment: permission and confirmation that work has been undertaken in school for assignment 'School Development and Pupil Progress', Summer 2018.

Dear class/senior mentor,

For the university module named above, trainees are required to identify one learner within the class in which they are based and, over the course of the Professional Teaching Experience, explore their learning in detail. The evidence that they need to gather could include:

- observation;
- asking the learner to identify places/things that help him/her learning;
- discussing what helps the pupil learn and how they feel about learning with the pupil and/or teacher;
- collecting samples of work which might show something about the learner's progress and development.

They are asked to focus on knowledge, attitude and skills in language, mathematics, wellbeing and at least two other areas of the curriculum to gain an holistic picture of the child. They then suggest the next steps for the learner, and indicate how these will be achieved. Trainees are expected to undertake this work independently wherever possible, and have been given ethical guidelines to follow (although undertaking the work above would be in line with typical classroom practice). The trainees have been asked not to reveal the identify of the learner or the school within their assignment.

Students have been asked to:

1. Seek permission for this work (by consulting with the class teacher and learner)
2. Provide verification that the work has taken place.

We would therefore be grateful if you could confirm that permission has been sought and that tasks have been undertaken by signing below:

STUDENT NAME (PLEASE PRINT): _____

SCHOOL NAME (PLEASE PRINT): _____

SENIOR MENTOR/CLASS MENTOR NAME (PLEASE PRINT):

MELERI NORGAN

SENIOR MENTOR/CLASS MENTOR NAME (PLEASE SIGN):


M. Norgan

If you have any queries regarding this, please contact the Programme Lead Helen Lewis :

h.e.lewis@uwtsd.ac.uk

Many thanks in advance,

Atodiad 3



Atodiad 4



Atodiad 5

Amcanion dysgu: Ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel.		Rwyn meddwl	Mae fy athro yn meddwl
Meini prawf llwyddiant			
Ysgrifennu cyfarwyddiadau gan ddefnyddio berfau gorchmynnol			✓
Ysgrifennu brawddegau i gyd-fynd â'r lluniau			✓
Defnyddiwch rifau, llythrennau, pwyntiau bwled neu liw i ddangos y drefn gywir			•
Ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer gêm neu chwaraeon			
Sylwadau			
Bydder i eisiau wella a'r ysgol gorchmynnol			
Cyfarwyddiadau diddorol			
Mae angen defnyddio rhifau a-y-b i ddangos y drefn gywir			
Banc o eirfa	Athro/Cynorth.	Ffram siarad/Ysg.	Symud cadeiriau
☐	☐	☐	☐
Offer llwyddiant	Taflen wirio	Llyfr Rh.G.A	
☐	☐	☐	

Yngynteg ^(S) meddwlwch am sut i croesi'r rheol.

Yna ^(S) gwardach am y ciir.

Yna edrychwch am y ciir. ✓

Yna aroschi'r ciir mynd hiipio.

Yna Gadeilach y Car mynd hiipio ^(S).

Yn olg croesi'r rheol.

Neid y berf i orchymyn. croesi →

Blipops

Sion i god rydych ~~redi~~ gweld y manod Blipop


Arosach

Atodiad 6


Nod dysgu : Defnyddio cwpannau i rannu rhifau dau ddigid.		Rwyn meddwl	Mae fy athro yn meddwl
Meini prawf llwyddiant			
Defnyddio cwpannau ar y bwrdd gwyn i ddangos symiau rhannu			✓
Gosod y symiau rhannu allan yn gywir			✓
Gosod y swm llusoi sydd yn berthnasol i'r swm rhannu yn gywir			✓
Cwblhau symiau rhannu sydd yn cynnwys gweddillion			✓
Sylwadau Hunan: Rydw i'n gweithio fel mas gar-lynur llwllau Llyso i gublhau symiau rhannu gyda gweddillion Athro: Edrych ar gwestiun 11 a 12 etc.			
Numicon	Cuisenaire	Dienes	Athro/Cynorthwy
☐	☐	☐	☐
Partner	Llyfr offer llwyddiant	Offer	Symud cadeiriau
☐	☐	☐	☐

1.	6	x	4	=	24	✓
2.	11	x	8	=	88	✓
3.	4	÷	3	=	3	✓
4.	36	÷	4	=	9	✓
5.	48	÷	8	=	6	✓
6.	10	÷	3	=	3g1	✓
7.	7	÷	2	=	3g1	✓
8.	5	÷	2	=	2g1	✓
9.	13	÷	4	=	3g1	✓
10.	18	÷	5	=	3g1	✓
11.	37	÷	6	=	5g4	
12.	43	÷	7	=	8g4	

Atodiad 7



Atodiad 8



Peli Ping Pong

Mae'r peli ping pong mewn bocsys o bump

- Ar gyfer pob set, ysgrifennwch sawl bocs fedrwyd chi lenwi. Sawl pêl sydd yn weddill.

1.

13 pêl

2 bocs
3 gweddill

2.

21 pêl

4 bocs ✓
1 gweddill ✓

3.

18 pêl

3 bocs ✓
3 gweddill ✓

4.

34 pêl

6 bocs ✓
4 gweddill ✓

5.

29 pêl

5 bocs ✓
3 gweddill ✓

6.

42 pêl

8 bocs ✓
2 gweddill ✓

• Ysgrifennwch sawl pêl sydd ym mhob set.

22 pêl ✓

4 bocs
2 yn weddill

33 pêl ✓

6 bocs
3 yn weddill